



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources**
Wales

Gwybodaeth Gwastraff Cymru 2012

Crynodeb o'r mathau o wastraff a chyfanswm y
gwastraff a gafodd ei drafod gan gyfleusterau
rheoli gwastraff trwyddedig yng Nghymru yn
2012.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8 y bore – 6 yr hwyr)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

[H] Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon o gael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau cynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd Cynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae tirwedd, amgylchedd a bywyd gwylt Cymru ymysg ei hadnoddau mwyaf, ac yn werth rhagor na £8bn i'w heconomi.

- Gweithiwn ar gyfer economi Cymru, a galluogwn ddefnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cynnal gwaith a menter. Helpwn fusnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried effeithiau amgylcheddol pan wnânt benderfyniadau pwysig.
- Gweithiwn ar gyfer cymunedau Cymru er mwyn diogelu pobl a'u cartrefi rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Darparwn gyfleoedd iddynt ddysgu, defnyddio a chael budd o adnodau naturiol Cymru.
- Gweithiwn er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer pawb. Gweithiwn tua gwneud yr amgylchedd ac adnoddau naturiol yn fwy galluog i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Ni yw prif gynghorwr Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r amgylchedd, gan alluogi datblygiad cynaliadwy adnoddau naturiol Cymru er budd pobl, yr economi a bywyd gwylt.

Gwybodaeth Gwastraff Cymru 2012

**Crynodeb o'r mathau o wastraff a chyfanswm y
gwastraff a gafodd ei drafod gan gyfleusterau
rheoli gwastraff trwyddedig yng Nghymru yn 2012.**

Ynglŷn â'r data

Mae'n ofynnol i gyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig yng Nghymru gyflwyno ffurflenni (bob chwarter neu bob blwyddyn) yn rhoi manylion y cyfanswm o wastraff a'r mathau o wastraff a gafodd ei drafod, ei drin a'i waredu gan y cyfleuster.

Trwy gasglu a chrynhofi'r wybodaeth hon, gallwn ddarparu data ar y deunyddiau a waredwyd (neu a gafodd eu trin mewn modd arall) gan safleoedd rheoli gwastraff trwyddedig.

Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol, cyrff cynllunio rhanbarthol a busnesau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff y dyfodol. Mae'r tudalennau hyn yn un o gyfres o adroddiadau blynyddol sy'n crynhoi ein data ar wastraff.

Ffeithiau Allweddol

Rheoli Gwastraff

Yn ystod 2012, rheolodd cyfleusterau yng Nghymru gyfanswm o 7.9 miliwn tunnell o wastraff.


Math o Safle	Tirlenwi	Derbyn er mwyn adfer	Ailgylchu metel	Llosgi (adfer ynni)	Llosgi (heb adfer ynni)	Trosglwyddo	Trin	Defnyd dio'r gwastraff	Cyfanswm
Nifer y safleoedd yn weithredol ar ddiwedd 2010	33	0	145	3	1	217	73	0	472
Nifer y safleoedd yn weithredol ar ddiwedd 2011	30	2	95	3	1	212	81	6	430
Nifer o safleoedd yn weithredol yn ystod 2012	25	7	90	3	1	222	102	10	460
Tunelli a reolwyd yn 2010 (000s)	2,303	0	551	23	5	1,813	1,580*	0	6,275
Tunelli a reolwyd yn 2011 (000s)	2,200	3	677	24	5	1,855	2,174*	63	7,001
Tunelli a reolwyd yn 2012 (000s)	2,163	92	814	55	5	2,025	2,582	214	7,949

Tabl 1.1 – Safleoedd gweithredol yng Nghymru. Dim ond unwaith y caiff safleoedd amldefnydd eu cyfrif a gall hyn effeithio ar y ffigur cyffredinol terfynol. Noder: Mae'n debyg bod peth o'r cynnydd yng nghyfanswm y gwastraff a reolir wedi digwydd oherwydd bod rhai safleoedd a oedd arfer bod yn esempt cyn 2010/11 bellach yn cael eu trwyddedu. Doedd hi ddim yn ofynnol i'r cyfleusterau hyn ddarparu cyfanswm mewn tunelli pan oedden nhw'n esempt.

* Mae'r data hwn wedi newid ers y data a gyhoeddwyd yn wreiddiol ac mae bellach yn cynnwys data cyfleuster nad oedd yn rhan o'r data a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd cynt

Tueddiadau Allweddol

Ffig 1.1 Tueddiadau Rheoli Gwastraff



Cafwyd parhad yn y cwmp yn y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn lleihad o 2% (37,000 tonnelli) rhwng 2011 a 2012 ac o 51% ers 2001. Cynyddodd y mewnbwn i safleoedd trosglwyddo trwyddedig 9% rhwng 2011 a 2012.

Cynyddodd y mewnbwn i safleoedd trin gwastraff trwyddedig 19% rhwng 2011 a 2012. Gallai'r ffaith fod 21 safle trin gwastraff newydd wedi agor yng Nghymru yn 2012 fod yn gyfrifol am hyn.


Capasiti Safleoedd Tirlenwi

Disgynnodd y capasiti sy'n weddill mewn safleoedd tirlenwi 1.5% yn ystod 2012 i 34.5 miliwn metr ciwbig.

Ar ddiwedd 2012:

- roedd 8% o'r capasiti mewn safleoedd anadweithiol;
- roedd 73% o'r capasiti mewn safleoedd gwastraff amheryglus; ac
- roedd 19% o'r capasiti mewn safleoedd ble mae'r defnyddwyr wedi eu cyfyngu (gwastraff peryglus ac amheryglus).
- Mae tua 10 mlynedd o oes tirlenwi ar ôl mewn safleoedd ar gyfer gwastraff amheryglus yng Nghymru, ar raddfa mewnbwn 2012.
- Ni chafodd unrhyw gapasiti tirlenwi ychwanegol ei greu eleni, ond ar ôl arolygiadau mwy manwl, mae gweithredwyr wedi dweud bod mwy o le ar gael yn rhai o'r safleoedd.

Ffig 1.2 Capasiti Safleoedd Tirlenwi




Amrywiad Rhanbarthol

Gogledd: Cwymp o 7%

De-ddwyrain: Cwymp o 5%

De-orllewin: Cynnydd o 7%

Ffig 1.4 Mewnbyn safleoedd tirlenwi yn ôl rhanbarth



Gwastraff Peryglus

Yn 2012, cafodd dros 274,000 tunnell o wastraff peryglus ei reoli mewn safleoedd yng Nghymru. Roedd hyn bron i 17,000 tunnell yn llai nag yn 2011. Mae'n ofynnol i ni fonitro symudiadau gwastraff peryglus cofrestredig.

Crynodeb o'r symudiadau hyn yw'r data a gyhoeddir yma. Gellir symud yr un gwastraff rhwng safleoedd gwahanol a chaiff pob symudiad ei gofnodi. Dylid ystyried y cyfrif dwbl hwn wrth ddefnyddio'r data.


Yn 2012, cafodd ychydig llai na 325,000 tunnell o wastraff peryglus ei waredu mewn cyfleusterau yng Nghymru. Roedd hwn yn gynnydd o 0.01% ers 2011. Daeth 201,000 tunnell o'r gwastraff hwn o'r tu allan i Gymru a'i fewnforio o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Blwyddyn	Llosgi (adfer ynni)	Llosgi (heb adfer ynni)	Tirlenwi	Storio tymor hir	Adfer	Trosglwyddo (Tymor byr)	Trin	Arall	Cyfanswm
2010	7,237	8,939	453	-	164,428	83,767	53,878	0	318,702
2011	872	7,906	17	-	159,048	94,722	61,874	114	324,554
2012	8,995	7,454	66	-	137,270	123,353	47,437	2	324,578

Tabl 1.2 Gwastraff peryglus a dderbyniwyd gan gyfleusterau gwastraff yng Nghymru. Yn nhabl 1.2, caiff data 2010, 2011 a 2012 ei gymharu. Mae'n dangos faint o wastraff peryglus a waredwyd yng Nghymru a beth ddigwyddodd iddo:

Ffig 1.4 Tueddiadau rheoli gwastraff peryglus

Cymru: Tuedd rheoli Gwastraff peryglus 1998/9 – 2012




- Cynyddodd cyfanswm y gwastraff peryglus a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru 280% (49 tunnell)
- Cafwyd cwmp o 23% (14,437 tunnell) yng nghyfanswm y gwastraff peryglus a gafodd ei drin yng Nghymru.
- Gwelwyd cwmp o 14% (21,777 tunnell) yng nghyfanswm y gwastraff peryglus a adferwyd.
- Cafwyd cynnydd o 36% (8,123 tunnell) yn yr ynni a adferwyd o wastraff peryglus yng Nghymru.

Yn 2012, cafodd ychydig mwy na 275,000 tonnelli o wastraff peryglus ei gynhyrchu yng Nghymru – 6% (17,000 tonnelli) yn llai nag yn 2011.

Ffig 1.5 Tueddiadau cynhyrchu gwastraff peryglus yng Nghymru

Cymru: Tuedd Cynhyrchu Gwastraff peryglus 1998/99 – 2012



Caiff mwy o wastraff peryglus ei fewnforio i Gymru i gael ei drin, ei adfer neu ei drosglwyddo nag sy'n cael ei allforio o Gymru i'w reoli mewn cyfleusterau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Tabl 1.3 Tynged gwastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru

Blwyd dyn	Llosgi (adfer ynni)	Llosgi (heb adfer ynni)	Tirlenwi	Storio tymor hir	Tynged arall	Adfer	Gwrt hodwyd	Trosglwyddo (D)	Trosglwyddo (R)	Trin	Cyfanswm
2012	435	8,975	29,388	4,461	3	131,200	58	18,619	33,470	48,027	274,636
2011	413	10,186	18,385	15,434	22	118,623	122	19,491	42,616	66,332	291,625
2010	489	11,953	15,769	2,973	0	115,774	61	18,331	39,549	49,803	254,701


Mae tabl 1.3 yn cymharu data o 2010, 2011 a 2012 ar gynhyrchu gwastraff peryglus yng Nghymru a'r hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff yng Nghymru a Lloegr rhwng 2011 a 2012:

- Cafwyd cynnydd o 60% (11,003 tonnelli) yng nghyfanswm y gwastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru a anfonwyd i safleoedd tirlenwi
- Cafwyd cwmp o 28% (18,305 tonnelli) yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd yng Nghymru a gafodd ei drin
- Cafwyd cynnydd o 11% (12,577 tonnelli) yng nghyfanswm y gwastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru a gafodd ei adfer
- Cafwyd cynnydd o 5% (22 tonnelli) yng nghyfanswm yr ynni a adferwyd o wastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Rhai o'r sectorau mwyaf sy'n cyfrannu at y ffigurau hyn yw Gwastraff Prosesau Thermol (anorganig), Olew a Chymysgedd o Olew/Dŵr, Gwastraff Adeiladu a Dymchwel ac Asbestos.

Llun 1.6 Symudiadau gwastraff peryglus


Cymru: Symudiad gwastraff peryglus 2012



Cyfleusterau Trosglwyddo, Trin ac Ailgylchu Metel


Cafodd dros 5.3 miliwn tonnell o wastraff ei drin trwy gyfleusterau trosglwyddo, trin ac ailgylchu metel trwyddedig yng Nghymru yn 2012.

Ffig 1.7 Mewnbyn a lleoliad safleoedd trosglwyddo, trin ac ailgylchu metel



- Cafodd oddeutu 2.5 miliwn tonnell o wastraff ei drin mewn cyfleusterau trwyddedig yng Nghymru yn 2012. Mae hyn yn gynydd o 22% (442,000 tonnell) o'i gymharu â 2011.
- Yn 2012, cafwyd cynnydd o 37% (393,000 tonnell) yn y gwastraff a aeth i safleoedd Triniaeth Ffisegol o'i gymharu â 2011.
- Cafwyd cynnydd o 20% yng nghyfanswm y mewnbyn i safleoedd Adfer Metel o'i gymharu â 2011.

Ffig 1.8 Tueddiadau mewn safleoedd trosglwyddo, trin ac ailgylchu metel
 Cymru: Mewnbnw i safleoedd trin Gwastraff (math o safle),
 trosglwyddo ac ailgylchu metelau 2000/1 – 2012



Gorsafoddd Trosglwyddo

Derbyniwyd dros 1.8 miliwn tunnell o wastraff mewn gorsafoddd trosglwyddo yng Nghymru yn 2012. Bydd gwastraff o orsafoddd trosglwyddo'n mynd i gyfleusterau eraill yng Nghymru neu'n cael ei allforio. Anfonwyd 275,078 tunnell o wastraff i orsafoddd trosglwyddo pellach yn ystod 2012. Roedd hyn yn gynnydd o 15% o'i gymharu â ffigurau 2011.

Noder: Gellir symud yr un gwastraff rhwng aml i safle a chaiff pob symudiad ei gofnodi. Dylid ystyried y cyfrif dwbl hwn wrth ddefnyddio'r data.

Mae tabl 1.4 yn dangos manylion gwastraff o orsafoddd trosglwyddo sy'n cael ei adfer, ei drin, ei losgi, ei roi mewn safleoedd tirlenwi neu ei anfon i gyfleusterau trosglwyddo eraill.

Tabl 1.4 Tynged allbwn gorsafoddd trosglwyddo 2012

Tynged y gwastraff (math o gyfleuster)	Allbwn gorsafoddd trosglwyddo i bob math o gyfleuster (tunelli)	Allbwn gorsafoddd trosglwyddo i bob math o gyfleuster (% o'r allbwn cyfan)
Llosgi	9,939	1%
Tirlenwi	544,646	30%
Adfer	680,160	38%
Trosglwyddo	275,078	15%
Trin	85,273	5%
Anhysbys	204,987	11%

Aeth 81% (1.466 miliwn tunnell) o'r gwastraff a adawodd orsafoddd trosglwyddo yng Nghymru i gyfleusterau eraill yng Nghymru, ac allforiwyd y 18% (318,000 tunnell) oedd yn weddill i Loegr neu du hwnt i'w waredu'n derfynol neu i'w adfer. Does dim gwybodaeth ar gael am ben taith 11% o'r gwastraff.


Triniaeth Fiolegol Fecanyddol, Compost a Threulio Anaerobig

Cafodd cyfanswm o 374,000 tonnelli o wastraff ei drin yn fiolegol a'i gompostio yng Nghymru yn 2012.

- Mae hyn 45,000 tonnelli yn llai na'r cyfanswm ar gyfer 2011.
- Cafodd 108,000 tonnelli o wastraff bioddiraddadwy ei gompostio yng Nghymru yn 2012.
- Cafodd 16,000 tonnelli o wastraff ei dreulio'n anaerobig yn 2012.

Llosgi

Ffig 1.9 Capasiti Llosgyddion



Dim ond ar gyfleusterau sy'n derbyn gwastraff o ffynonellau allanol yr ydym ni'n adrodd. Nid yw'n cynnwys cyfleusterau sy'n llosgi gwastraff prosesau mewnol eu hunain.

- Cafodd 59,000 tonnelli o wastraff ei losgi mewn cyfleusterau yng Nghymru yn ystod 2012 – cynnydd bach o'i gymharu â 2011.
- Cafodd 55,000 tonnelli o'r gwastraff hwn ei losgi mewn cyfleusterau adfer ynni yng Nghymru sy'n derbyn gwastraff dinesig a gwastraff arall.
- Roedd gwerth 264,868 tonnelli o gapasiti llosgi gwastraff trwyddedig ar gael yng Nghymru ar ddiwedd 2012.

Caiff dwy odyn sment eu trwyddedu i gyd-losgi tanwydd sy'n deillio o sbwriel (RDF). Y capasiti a ganiateir yw oddeutu 221,000 tonnelli y flwyddyn yn y Gogledd a 26,000 tonnelli yn y De-ddwyrain. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r capasiti hwn a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer RDF. Ni ddylid dibynnu ar y capasiti hwn ar gyfer cynllunio i'r dyfodol.